Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1218

Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2017

Asesu gallu cynhyrchiol tir

2.—(1) Mae paragraffau (2) a (3) yn cael effaith at y diben o asesu gallu cynhyrchiol uned o dir amaethyddol a leolir yng Nghymru, er mwyn penderfynu a yw'r uned honno yn uned fasnachol o dir amaethyddol o fewn yr ystyr a roddir i "commercial unit of agricultural land" ym mharagraff 3(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Os gellir defnyddio'r tir o dan sylw, pan gaiff ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd âr fferm, cnwd garddwriaethol yn yr awyr agored neu ffrwythau fel a grybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 3 yng ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yna—

(a) yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir yw'r uned yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2, a

(b) y swm a bennir, ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â 12 Medi 2017, fel yr incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw yw'r swm yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3, fel y'i darllenir ynghyd ag unrhyw nodyn perthnasol i'r Atodlen honno.

(3) Os oedd tir sy'n gallu cynhyrchu incwm blynyddol net, pan gaiff ei ffermio o dan reolaeth gymwys, yn hectar cymwys yn 2016 yn unol â chofnod 4 yng ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yna—

(a) yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir yw'r uned yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2, a

(b) y swm a bennir, ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â 12 Medi 2017, fel yr incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw yw'r swm yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3.